## C: ASESIAD EFFAITH Y GYMRAEG

*Cafodd effaith Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ("Deddf Plant Cymru") ar y Gymraeg ei hystyried yn wreiddiol cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg hwn yn ailasesu effeithiau posibl (Medi 2020) yn dilyn rhoi Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Plant Cymru ym mis Mawrth 2020. Mae'r asesiad effaith hwn wedi'i ddiweddaru yn ystyried unrhyw effeithiau posibl ar y Gymraeg yn ystod y cyfnod o weithgarwch gweithredu wedi'r Cydsyniad Brenhinol (Mawrth 2020) hyd y daw Adran 1 (dileu amddiffyniad cosb resymol) Deddf Plant Cymru i rym ym mis Mawrth 2022.*

1. **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (i'w gwblhau gan Dîm Safonau'r Gymraeg)**

   **04/11/2018**

2. **A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?**

Nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 a strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Fodd bynnag, mae gwaith datblygu'r cynnig yn gyson â'r weledigaeth a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050, sef bod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar bob cyfle, a bod y cyfleoedd ar gael ym mhob man.

3. **Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.**

Cafodd Deddf Plant Cymru a'r holl ddogfennau cysylltiedig eu cyhoeddi'n ddwyieithog er mwyn sicrhau bod anghenion a gofynion ieithyddol yn cael ystyriaeth ddyledus.

Cafodd effeithiau posibl ar y Gymraeg eu hystyried yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer Deddf Plant Cymru. Gofynnwyd y cwestiwn gorfodol am y Gymraeg, sy'n holi am effeithiau cadarnhaol ac andwyol y gallai'r cynigion eu cael ar y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd y mwyafrif yr ymatebion yn dangos y bydd y newidiadau a gynigiwyd gan Ddeddf Plant Cymru yn cael effaith niwtral ar y Gymraeg.

Drwy drafodaethau â rhanddeiliaid, nodwyd effaith negyddol bosibl ar blant sy'n siarad Cymraeg. Os bydd gofyn i blentyn fod yn bresennol fel tyst mewn llys, rhaid ystyried cael Cyfryngwyr Cofrestredig i fod yn bresennol. Caiff Cyfryngwyr

Cofrestredig eu defnyddio gan yr heddlu a'r llysoedd i helpu tystion ag anawsterau cyfathrebu i roi tystiolaeth mewn achosion. Mae'r Cyfryngwyr Cofrestredig yn cael eu recriwtio, eu hyfforddi a'u hachredu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ym mis Medi 2020, cadarnhaodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder bod yna bedwar Cyfryngwr Cofrestredig sy'n siarad Cymraeg yn y Cynllun Cyfranogwyr Tystion, yn cwmpasu pob ardal llu heddlu yng Nghymru.

Ni fyddai Cyfryngwyr Cofrestredig yn cael eu defnyddio o reidrwydd os oedd tystiolaeth ddiamwys – hynny yw tystiolaeth fel recordiad ar deledu cylch cyfyng neu ddatganiad gan dyst – gan na fyddai angen i'r plentyn fod yn dyst o dan yr amgylchiadau hynny. Os bydd angen defnyddio Cyfryngwr Cofrestredig, dylai'r plentyn gael gwybod ar unwaith fod y gwasanaeth hwn ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ar hyn o bryd, mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn datgan fod gan unrhyw unigolyn yr hawl i siarad Cymraeg mewn llys barn, felly os bydd y plentyn yn dewis mynd gyda Chyfryngwr Cofrestredig Cymraeg, rhaid i hynny gael ei drefnu. Unwaith y daw Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym ym mis Mawrth 2022, gallai unrhyw gynnydd posibl yn nifer yr achosion waethygu'r sefyllfa. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld y bydd llawer o achosion yn mynd i'r llys, a disgwylir y byddant yn cael eu datrys drwy ddatrysiad y tu allan i'r llys[1]. Drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cynllun Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys rydym yn gweithio gyda'r heddlu a rhanddeiliaid eraill i gyflwyno cynllun datrys addas a allai ddarparu ymyriadau i gefnogi newid ymddygiad a (lle bo'n briodol) gwyro unigolion i ffwrdd o gael eu herlyn. Bydd unrhyw gynllun a gyflwynir ar gael drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.

Darpariaeth arall yn Neddf Plant Cymru yw bod gan Weinidogion Cymru ddyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r newid yn y gyfraith cyn y daw i rym ym mis Mawrth 2022. Cafodd yr ymgyrch godi ymwybyddiaeth ar gyfer Deddf Plant Cymru ei hoedi'n swyddogol tra'r oedd holl waith cyfathrebu Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar yr ymateb i argyfwng Covid-19. Mae'r ymgyrch godi ymwybyddiaeth yn ymgyrch aml-gyfrwng wedi'i thargedu a fydd yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd penodol yn ogystal ag amrywiaeth o waith hysbysebu a Chysylltiadau Cyhoeddus. Bydd gwaith codi ymwybyddiaeth yn parhau am gyfnod ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym ym mis Mawrth 2022. Bydd yr holl weithgarwch cyfathrebu'n cael ei ddarparu yn Gymraeg a Saesneg.

Yn ystod y cam gweithredu cyn i Ddeddf Plant Cymru ddod i rym mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag unigolion allweddol drwy'r Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta i wella darpariaeth cymorth rhianta cyfredol i rieni. Mae hyn yn cynnwys ehangu ystod oedran 'Magu plant. Rhowch amser iddo' fel ei fod yn cwmpasu 0-18 oed yn hytrach na 0-7 oed fel y mae ar hyn o bryd. Bydd y cymorth rhianta yn cael ei hyrwyddo'n fwriadol i'r un graddau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn hefyd yn parhau i feithrin cysylltiadau

---

[1] Nid ydym yn gallu rhagweld effaith cyfranogiad rhiant gyda'r system gyfiawnder yn gwbl sicr gan nad oes cynsail yn y DU ar gyfer dileu'r amddiffyniad ac oherwydd arferion adrodd a chofnodi cyfredol. Gwnaed yr asesiad hwn drwy ddefnyddio'r data gorau, sydd ar gael ar hyn o bryd, yn cynnwys defnyddio'r profiad yn Seland Newydd fel dirprwy. Gweler yr Asesiad Effaith ar Gyfiawnder am ragor o wybodaeth.

â grwpiau cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys Mudiad Meithrin, y Mentrau Iaith a Merched y Wawr.

Yn ogystal, mae gan rieni yng Nghymru fynediad i linell gymorth sy'n cael ei rhedeg gan Family Lives sy'n darparu cymorth emosiynol, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar unrhyw agwedd ar rianta a bywyd teuluol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Family Lives, am gyfnod prawf, i gyflogi derbynnydd galwadau sy'n siarad Cymraeg hyd ddiwedd Mawrth 2021. Mae'r cymorth ychwanegol yn cael ei dreialu am gyfnod cyfyngedig er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd